

# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI

Rhifyn 3- 19eg o Orffennaf 2024

# Neges Diwedd Blwyddyn




Annwyl Riant / Ofalwr,

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd lwyddiannus arall ym Mro Teifi, cysylltaf gyda chi am y tro olaf eleni i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac i rannu peth gwybodaeth a newyddion gyda chi.

Yn y rhifyn ola' hyn o Dolen, cewch wybod rhywfaint am weithgareddau diwedd y tymor, cael cyfle i ffarwelio gyda rhai aelodau staff a derbyn gwybodaeth defnyddiol am rai dyddiadau pwysig y flwyddyn nesaf. Byddwn yn rhannu calendr mwy cyflawn gyda chi ar ddecrhau'r flwyddyn nesaf.

Dwi'n gobeithio y cewch chi wyliau Haf da ac edrychaf ymlaen i groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ym mis Medi.

Cofion

*G Evans*

Pennaeth

## Diwrnodau HMS 2024/25

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 02/09/2024 | Diwrnod HMS 1 |
| 03/09/2024 | Diwrnod HMS 2 |
| 21/10/2024 | Diwrnod HMS 3 |
| 21/03/2025 | Diwrnod HMS 4 |
| 23/06/2025 | Diwrnod HMS 5 |



# Eisteddfod Oed Uwchradd 2024

Ar brynhawn yr 11eg o Orffennaf a thrwy'r dydd ar Ddydd Gwener y 12fed, cynhaliwyd Eisteddfod Oed Uwchradd 2024. Bu yna gystadlu brwd ar draws ystod eang iawn o gystadlaethau gan gynnwys canu, llefaru, dawnsio, dweud jôcs a mwy! Ar ddiwedd y dydd, wedi cyfri'r pwyntiau llwyfan a'r pwyntiau gwerthfawr o'r cystadlaethau gwaith cartref TEIFI ddaeth i'r brig gan gipio tlws Eisteddfod Oed Uwchradd Ysgol Bro Teifi 2024.

Gweler isod mwy o wybodaeth am yr Eisteddfod a dilynwch y linc o'r blog i wybod ychydig mwy am yr enillwyr ac i wrando ar ambell i gystadleuaeth!

https://carthen.360.cymru/2024/07/10/eisteddfod-ysgol-teifi-uwchradd/



Enillwyr Emlyn am y marciau uchaf:
**Iau**: Gwenllian Dafydd
**Hŷn**: Leisa Thomas



Enillwyr Teifi am y marciau uchaf:
**Iau**: Magw Thomas
**Hŷn**: Daniel Evans



Enillwyr Tysul am y marciau uchaf:
**Iau**: Sioned Elias-Davies
**Hŷn**: Erin Griffiths



**Enillwyr Eisteddfod Ysgol Bro Teifi 2024 oedd tŷ..........**

**TEIFI!**

# Eisteddfod Oed Uwchradd 2024



Enillydd y Goron Hŷn: Leisa Thomas



Enillydd y Goron Iau: Hollie Fallows



Enillydd y Gadair Hŷn: Daniel Evans



Enillydd y Gadair Iau: Sioned Elias-Davies

## Da iawn i'r 6ed am eu gwaith ac i Mrs Long a Mrs Tomos am drefnu





# Gwobrau Chwaraeon Ceredigion

Yn ddiweddar cynhaliwyd Gwobrau Chwaraeon Ceredigion 2024 ym Mhenmorfa, Aberaeron. Trefnir y Gwobrau mewn partneriaeth rhwng **Cyngor Sir Ceredigion** a **Ceredigion Actif,** gyda'r nod o ddathlu llwyddiannau chwaraeon a'r bobl sy'n galluogi'r chwaraeon i ddigwydd. Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion canlynol:



**Llysgennad Ifanc:**
**Bedwyr Llywelyn**

## Gwobrau i Athletwyr Rhyngwladol:

**Bronwen Thomas (Hwylio)**
**Steffan Williams (Hwylio)**
**Hana Evans (Pêl-droed)**
**Lleucu Mathias (Pêl-droed)**








# Gwobrau Chwaraeon Ceredigion




## Gwobrau i Blant Iau Talentog 2024:

Elis Davies (Criced)
Tomos Jac Davies (Criced)
Dafydd Owen (Hoci)
Elin Onwy Needham (Hoci)
Lois Davies (Rygbi)
Erin Hallows (Rygbi)
Noa Harries (Rygbi)
Esyllt Haf Môn Jones (Rygbi)
Cynyr MacRae (Rygbi)
Elin Selby (Rygbi)
Georgia Smith (Rygbi)
Phoebe Smith (Rygbi)
Osian Taylor (Rygbi)













## Da iawn i'r holl ddisgyblion am eu llwyddiant yn ystod y flwyddyn!



# Taith Rygbi Canada





Bu'n daith a hanner i'n disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 i Ganada. Llwyddodd y tim rygi bechgyn a'r tim rygbi merched ennill pob un o'r gemau, yn erbyn Niagra Wasps, Waterloo Lions a Balmy Beach Club.



Ymysg yr uchafbwyntiau eraill oedd gwylio gêm pêl-fas rhwng Blue Jays a'r New York Yankees, rafftio ar hyd yr afon yn Brantford ac wrth gwrs ymweld â Niagra Falls. Taith bythgofiadwy yn wir.











# Mabolgampau Oed Uwchradd

Er gwaethaf y tywydd anwadal eleni, llwyddwyd cynnal ein cystadlaethau mabolgampau yn ystod cyfres o ddiwrnodau. Roedd hi'n braf unwaith yn rhagor gweld y disgyblion yn rhoi o'u gorau. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd.

Enillwyr Mabolgampau Uwchradd 2024: TEIFI

Pencampwraig Hŷn: Leisa Thomas
Pencampwr Hŷn: Dafydd Jones
Pencampwraig Iau: Erin Owen
Pencampwr Iau: Caio Lloyd

Gallwch weld y canlyniadau'n llawn drwy glicio ar ddolen y blog isod.













# Teithiau Diwedd Blwyddyn!!!!

## MOODY CALF



## Parc Deinosoriaid







## Fferm Ffoli





## Paddlers





## Oakwood



# Gwisg Ysgol

Yn dilyn cais gan y Corff Llywodraethol, hoffwn ategu'r wybodaeth isod cyn eich bod yn mynd ati i brynu gwisg ar gyfer mis Medi.

**Esgidiau:** Ni fyddwn yn derbyn disgyblon i mewn yn y bore sydd yn gwisgo "boots" gwaith ar eu traed e.e. Redback. Rydym yn hapus i dderbyn esgidiau du plaen neu drenars du lleder ond nid yw esgidiau chwaraeon na esgidiau canfas yn dderbyniol.

**Sgertiau a Thrwsusau:** Mae angen i sgertiau i fod o hyd rhesymol uwchben y benglin (dim mwy na 10cm). Ni dderbynir sgertiau steil tiwb. Dylai trwsusau i fod yn drwsus ysgol wedi eu teilwra; nid "leggins" na thrwsus chwaraeon.

**Gwallt, Gemwaith a Cholur.** Un styd yn y glust / ddwy glust. Dim gemwaith arall gweledol gan gynnwys yn y trwyn. Colur naturiol - dim ewinedd acrylig na estyniadau i'r amrannau (eyelash extensions). Gwallt o liw a steil naturiol.

Ewch i'n gwefan er mwyn deall y disgwyliadau gwisg yn llawn ynghyd â dysgu mwy ynghylch ble gallwch gael gafael ar wisg i'w brynu.

https://www.ysgolbroteifi.cymru/section/13-school-uniform/

# Ffarwel i Staff!

Heddiw rydym yn ffarwelio gyda'r staff isod; nifer ohonynt wedi rhoi degawdau o wasanaeth i mewn i addysg yn yr ardal hon. Dymunwn y gorau i bawb ar gyfer y dyfodol!

MR HEDD LADD LEWIS

MRS CLAIRE DAVIES

MRS NIA JONES

MISS SARA GRIFFITHS

MR LLYR JAMES

MRS ELEN BOWEN

MRS FFION JAMES

MRS DELYTH EVANS

MRS ELEANOR COLBOURNE

MRS NIA REES

MISS CATRIN DAVIES

MISS NIA DAVIES

MRS TRACEY DAVIES

MISS ELEN HALL JONES

MRS DONNA THOMAS

MRS HEATHER HOWELLS

MRS SIÂN JONES

oni heuir ni fedir

YSGOL BRO TEIFI

# Asesiadau Personol

Os rhwng blwyddyn 2 a 9, bydd eich plentyn wedi gwneud sefyll asesiadau cenedlaethol llythrennedd a rhifedd yr Haf hwn. Gallwch weld adroddiad cynnydd ac adroddiad adborth eich plentyn drwy mewngofnodi i mewn i Hwb a mynd mewn i'r ardal "Asesiadau Personol". Gweler isod ddolen sy'n esbonio'r profion i chi ac hefyd linc i fideo sy'n esbonio sut i gael gafael ar yr adroddiadau.

**CANLLAW I RIENI**

**FIDEO**

# Diwedd Cyfnod i Flwyddyn 6



Dymuniadau gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd wedidod i ddiwedd eu cyfnod addysg oed cynradd. Pob hwyl i chi ym mlwyddyn 7 y flwyddyn nesaf a DIOLCH ENFAWR i chi am eich cyfraniad yn ystod eich cyfnod yn yr oed cynradd.

# Parti Diwedd Blwyddyn 6!





